

Trosolwg

Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig sy'n gwneud yr ymgynghoriad, yr asesiad, y cynllunio a'r paratoi ar gyfer triniaethau dewisiol cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol. Mae'r safon yn rhan o'r set safonau galwedigaethol cenedlaethol cosmetig nad yw'n llawfeddygol, sy'n cynnwys safonau sy'n ymwneud â thocsin botwliniwm math A i drin gor-chwysu, y defnydd o ddyfeisiadau plasma, triniaethau cryotherapi i'r wyneb a thriniaethau dwysedd uchel egni uwchsain wedi ei ffocysu er mwyn adnewyddu croen. Bydd yn rhaid i chi ddilyn y protocol triniaeth cosmetig nad yw'n llawfeddygol, gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a chyfundrefnol er mwyn nodi, asesu a rhoi ar waith arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol. Rhaid i'r ymarferydd esthetig gael cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu ei gyffelyb a gallu cyflawni'r swyddogaethau o fewn SFHCHS36: Cefnogaeth bywyd sylfaenol a gallu cael gafael ar gyfarpar cefnogi bywyd fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun rheoli cymhlethdodau a/neu argyfwng

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cosmetig nad yw'n llawfeddygol sy'n gryo a chynhwysfawr gan gymryd i ystyriaeth:
 - 1.1 yr hanes meddygol mae'r unigolyn wedi ei ddatgan a'i statws meddygol cyfredol
 - 1.2 hanes triniaethau yr unigolyn
 - 1.3 dosbarthiad, cyflwr a sensitifrwydd croen yr unigolyn a gallu'r man triniaeth i wella
 - 1.4 pryderon, disgwyliadau a chanlyniadau disgwylidig yr unigolyn
 - 1.5 addasrwydd corfforol a seicolegol yr unigolyn ar gyfer triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol
 - 1.6 y gwrtharwyddion a'r cyfyngiadau cymharol a llwyr sydd wedi eu datgan
2. cydnabod, ymateb a chyfeirio'n briodol mewn ymateb i **gyflyrau wedi eu datgelu** yn unol â deddfwriaeth data
 3. trafod amcanion, pryderon, disgwyliadau a chanlyniadau disgwylidig yr unigolyn er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol i gynnwys:
 - 3.1 dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth
4. trafod y strwythurau tâl ac egluro sut gall hyn effeithio ar ddewis yr unigolyn o driniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol
 5. trafod a chytuno ar raglen preimio'r croen neu'r argymhellion sydd eu hangen cyn y driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol
 6. cyfathrebu gyda'r unigolyn er mwyn penderfynu ar ei allu i roi cydsyniad wedi ei hysbysu
 7. asesu, trafod, cytuno a chofnodi'r ymgynghoriad cosmetig nad yw'n llawfeddygol a chanlyniadau disgwylidig a'r risgiau cysylltiedig gyda'r unigolyn

8. hysbysu a darparu gwybodaeth i'r unigolyn am ei **hawliau**

9. cymryd a chadw **cyfryngau gweledol** gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn yn unol â gofynion yswiriant, polisïau cyfundrefnol a gweithdrefnau

10. trafod gyda'r unigolyn y teimlad corfforol all ddigwydd yn ystod y driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol gan ddilyn y protocol triniaeth

11. trafod y dewisiadau ar gyfer rheoli poen

12. datblygu'r cynllun triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol

13. darparu a chael cadarnhad bod y cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig a'r cyngor a roddwyd i'r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth wedi eu derbyn

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd cydweithredu gyda phobl broffesiynol gymwys er mwyn cefnogi arferion gwaith effeithiol a diogel
2. pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio ag arferion moesegol a gweithio o fewn y gofynion deddfwriaethol
3. pwysigrwydd ymwneud â, a chofnodi eich datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, gwybodaeth gyfredol ac wedi ei diweddarau, polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau arfer orau
4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon
5. y gwrtharwyddion neu'r amodau cyflwyno i gynnwys:
 - 5.1. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion os ydynt y tu allan i'ch maes cymwys neu'ch cylch gwaith
 - 5.2 sut a phryd i gyfeirio at bobl broffesiynol eraill ym maes gofal iechyd a thu allan i faes gofal iechyd
6. y rhesymau pam y gall cyflyrau meddygol fynd yn groes i'r driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol
7. y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis a chyfeirio meddygol
8. pwysigrwydd cyfathrebu gyda'r unigolyn mewn modd proffesiynol
9. y ffactorau i'w hystyried pan yn creu cynllun triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol sydd wedi ei theilwrio
10. pam ei bod yn rhaid i chi ddatblygu a chytuno ar gynllun triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol i gynnwys:
 - 10.1 statws meddygol cyfredol wedi ei ddatgan
 - 10.2 hanes triniaethol
 - 10.3 gwrtharwyddion cymharol a llwyr
 - 10.4 **dosbarthiad y croen**, a'i gyflwr a'i sensitifrwydd

10.5 gallu'r croen i iachau

10.6 disgwyliadau'r unigolyn

10.7 addasrwydd corfforol a seicolegol yr unigolyn ar gyfer triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol

11. y berthynas rhwng anghenion cymdeithasol, corfforol, seicolegol a ffisiolegol ac amcanion y driniaeth

12. effaith dylanwadau cymdeithasol, y cyfryngau a thueddiadau

13. sut gall eich datblygiad proffesiynol parhaus chi eich hun gefnogi'r unigolyn i wneud dewis wedi ei hysbysu

13.1 dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth

14. perthnasedd sefydlu'r gweithgareddau cyn triniaeth sy'n berthnasol i amcanion y driniaeth

15. pwysigrwydd asesu, trafod, cytuno ar, adolygu a chofnodi canlyniadau'r ymgynghoriad cosmetig nad yw'n llawfeddygol

16. pwysigrwydd egluro proses y driniaeth, y canlyniadau disgwylidig a'r risgiau cysylltiedig

17. manteision defnyddio cymhorthion gweledol yn ystod ymgynghoriad

18. sut i reoli disgwyliadau'r unigolyn

19. y gofynion deddfwriaethol a digollediad ar gyfer cael cydsyniad wedi ei lofnodi a'i hysbysu ar gyfer y driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol

20. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer sicrhau, cofnodi, cadw gwarchod a dal data'r unigolyn

21. pam bod triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol wedi eu gwahardd neu eu cyfyngu ar gyfer pobl dan oed

22. yr oed pan mae rhywun yn cael ei ystyried dan oed a sut mae hyn yn amrywio yn genedlaethol

23. y gofynion deddfwriaethol sy'n pennu hawliau'r unigolyn a'r ymarferydd

24. pwysigrwydd egluro'r teimlad corfforol sy'n cael ei greu i'r unigolyn gan y driniaeth i gynnwys:

24.1 sut mae'r trothwy poen a sensitifrwydd yn amrywio o unigolyn i unigolyn

25. y mathau o ddulliau reoli poen a'r risgiau cysylltiedig

26. y gofynion deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol ar gyfer cymryd a chadw cyfryngau gweledol o fan triniaeth yr unigolyn

27. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion triniaeth gosmetig yr unigolyn nad yw'n llawfeddygol

28. y rhesymau dros ddarparu a chael cadarnhad eich bod wedi derbyn gan yr unigolyn y **cyfarwyddiadau** llafar ac ysgrifenedig a chynghor cyn ac ar ôl y driniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol

Cwmpas/Ystod

Cyflyrau wedi eu datgelu**

1. gwrtharwyddion
2. anhwylderau dysmorffig y corff
3. cyflwr corfforol, a seicolegol
4. diogelu

*

*

Hawliau

1. amser i adfyfrio/cyfnod i wneud dewis wedi ei hysbysu
2. cydsyniad gwybodus
3. cytundeb ariannol/ ar gontract
4. cefnogaeth ac adolygiad wedi triniaeth
5. yr hawl i ofyn am gymwysterau, hyfforddiant ac yswiriant digollegiad yr ymarferydd

Cyfryngau gweledol

1. ffotograffaid
2. fideo

Anatomeg a Ffisioleg

1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd-ddibynniaeth ar ei gilydd
2. ffactorau cynhenid ac anghynhenid y croen
3. protocol osgoi risg cysylltiedig neu ardaloedd **perygl

Dosbarthiad croen

1. Graddfa Fitzpatrick
2. Difrod-ffoto Glogau

Cyfarwyddiadau

1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd esthetig
2. cefnogaeth a chynghor sydd ar gael ar unwaith ac yn barhaus
3. rheoli cymhlethdodau a/neu gynllun argyfwng
4. disgwyliadau wedi triniaeth ac amserlenni cysylltiedig
5. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac wedi triniaeth
6. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
7. triniaethau yn y dyfodol
8. gweithdrefn cwynion neu brotocol pryderon

Geirfa

Delweddau gweledol *

*

Delweddau gweledol yw tystiolaeth sydd wedi ei chreu drwy ffotograffiaeth neu fideo.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKANSC1.2, SKANSC10, SKANSC11, SKANSC12, SKANSC13

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKANSC2.2
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch, Tricolegwyr, Estheteg Harddwch, Ymarferydd Estheteg
Cyfres/Set	Therapi Harddwch, Tricoleg, Triniaethau Cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol
Geiriau Allweddol	Ymgynghori, asesu, cynllun triniaeth, paratoi, gwrtharwyddion, cyfathrebu, protocol triniaeth, tocsin botulinwm , HIFU, Cryotherapi triniaethau i'r wyneb, Dyfais Plasma, Pen Plasma